

## Prydau ysgol am ddim

**Os yw eich plentyn yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim mae'n golygu y gall fwynhau prydau blasus ac iachus heb y biliau a'r drafferth o wneud pecynnau bwyd.**

Bydd prydau ysgol yn rhoi archwaeth i'ch plentyn I fod eisiau dysgu ac yn ei helpu i fod yn fwy egniol. Gallai hawlio Prydau Ysgol am Ddim arbed tua £400 y flwyddyn o gyllideb eich teulu am bob disgybl ysgol uwchradd a £370 am bob disgybl ysgol gynradd!

### **Gallai hyn dalu eich bil trydan am flwyddyn gyfan!**

Fe all bod gan eich plentyn hawl i brydau ysgol am ddim os oes gennych hawl i dderbyn un o'r canlynol :-

Cymhorthdal Incwm

Lwfans Ceiswyr Gwaith (seiliedig ar Incwm)

Cefnogaeth o dan Rhan VI Deddf Lloches a Mewnfudo 1999

Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth mewn perthynas ag incwm,

Credyd Treth Plant os nad oes hawl i gredyd treth gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190 (Cyllid a Thollau Eu Mawrhydi sy'n gyfrifol am asesu lefel incwm blynyddol)

Yr elfen a warantwyd o Gredyd Pensiwn Gwladol

'parhad' Credyd Treth Gwaith – y taliad y gall rhywun ei dderbyn am bedair wythnos ymhellach wedi iddynt beidio â bod yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.

Credyd Cynhwysol

Mae prydau ysgol am ddim ar gael hefyd I blant meithrin sy'n mynychu dyddiau llawn a myfyrwyr chweched dosbarth sy'n mynychu ysgol yn llawn amser

Os byddwch yn hawlio prydau ysgol am ddim bydd eich ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol am bob plenty fydd yn cofrestru! Gelwir hyn yn Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n rhoi £918 y flwyddyn am bob disgybl i'r ysgol. Caiff hwn ei wario ar adnoddau ychwanegol i gefnogi eich plant i gyflawni eu llawn botensial.

### **Sut gallaf hawlio prydau ysgol am ddim?**

Gallwch gael ffurflen gais gan yr ysgol lle mae eich plentyn/plant yn mynd iddi neu gan Wasanaeth Addysg Cyngor Môn. Gellir cwblhau'r ffurflenni a'u dychwelyd i'r ysgol neu yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Addysg.

